# Cofnodion Cangen y Senedd
# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
# 23 Tachwedd 2022

Croeso

Croesawodd Ysgrifennydd y Gangen (Clerc y Senedd) y rheini a oedd yn bresennol ac agorodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## 1. Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

## 2. Materion sy'n codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 3. Unrhyw Fusnes Brys

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod

## 4. Adroddiad gan Gadeirydd Cangen y Senedd, Rhun ap Iorwerth AS

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn gyfnod cynhyrchiol i'r Gangen. Roedd Pwyllgor Gwaith y Gangen a oedd – am y tro cyntaf – bellach yn gytbwys o ran rhywedd, wedi gweithio'n effeithiol ac wedi cynnig persbectif deinamig a newydd i'n gwaith. At hynny, bu'n gadarnhaol iawn nodi nifer yr Aelodau newydd, yn ogystal â'r rheini nad oeddent wedi ymgysylltu â'r CPA o'r blaen, sydd â diddordeb yng ngwaith y Gangen. Roedd y canlynol ymhlith gweithgareddau nodedig dros y cyfnod adrodd hwn:

- Ein cyfranogiad mewn nid un, ond (yn anarferol) dwy Gynhadledd Ranbarthol a gynhelir gan Ganghennau Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw ar y themâu "*Seneddau ar ôl y Pandemig*" a "*Gwaith Craffu Effeithiol*", yn ôl eu trefn.

- Presenoldeb Sam Rowlands AS a Natasha Asghar AS yn Seminar Seneddol y Gymanwlad eleni a gynhelir gan CPA y DU.

  Ein cyfranogiad yng Nghynhadledd seneddol y Gymanwlad eleni (y gyntaf mewn tair blynedd) a gynhaliwyd gan Gangen ffederal Canada yn Nova Scotia lle cynrychiolwyd y Gangen gan Huw Irranca-Davies AS a Sarah Murphy AS.

- Cynhaliwyd Cynhadledd Ranbarthol lwyddiannus ddiweddar Seneddwragedd y Gymanwlad yn Gibraltar ar y thema "*Denu a Chadw Seneddwragedd Effeithiol*", yr arweiniodd Rhianon Passmore AS ein dirprwyaeth iddo, ynghyd â Heledd Fychan AS a Buffy Williams AS.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfranogiad pwysig Llyr Gruffydd AS fel ein cynrychiolydd ar y *Gweithgor Argyfwng Hinsawdd*. At hynny, y gwaith rhagorol o dan arweiniad Mark Isherwood MS fel ein Hyrwyddwr Cangen ar y *Rhwydwaith Seneddwyr ag Anableddau*.

- Mynegodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Gangen wedi bod yn falch o weld Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn ailgychwyn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad a bod y Senedd – yn dilyn cydweithrediad rhwng y Gangen a Thîm Senedd Ieuenctid Cymru – ar hyn o bryd yn cael ei chynrychioli gan gyn-Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru, Betsan Angell Roberts a Gwion Rhisiart yn Port of Spain, Trinidad.

**5.** <u>Cau</u>

<u>Nododd y Cadeirydd</u> fod 2023 yn argoeli i fod yn flwyddyn yr un mor gyffrous gyda chynadleddau arfaethedig yn San Steffan a Ghana ac y byddai'r Gangen hefyd yn edrych ymlaen at groesawu amrywiaeth o ddirprwyaeth seneddol i'r Senedd – o un o'r lleiaf yn San Helena i un o'r mwyaf yng Nghanada.

Diolchodd y Cadeirydd i Ysgrifenyddiaeth y Gangen am eu cefnogaeth ac edrychodd ymlaen at weld diddordeb ac ymgysylltiad parhaus yr Aelodau yng ngwaith Cangen Senedd y CPA.

## 6. Yn bresennol

**Aelodau Cangen y Senedd**

1 Elin Jones AS, y Llywydd (Llywydd y Gangen)
2. Y Dirprwy Lywydd David Rees AS (Is-lywydd y Gangen)
3. Rhun ap Iorwerth AS (Cadeirydd)
4. Delyth Jewell MS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)
5. Sam Rowlands AS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)
6. Rhianon Passmore AS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)
7. Natasha Asghar AS (Pwyllgor Gwaith y Gangen)
8. Mike Hedges AS
9. Peredur Owen Griffiths AS
10. Dawn Bowden AS
11. Sarah Murphy AS
12. Huw Irranca-Davies AS
13. Vaughan Gething AS
14. Mabon ap Gwynfor AS
15. Joyce Watson AS

**Ysgrifenyddiaeth y Gangen:**
Manon Antoniazzi, Ysgrifennydd y Gangen. Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen
Enfys Roberts, Swyddfa Breifat y Llywydd

Arsylwi
Gwion Evans, Swyddfa Breifat y Llywydd

**Ysgrifenyddiaeth Cangen y Senedd o**
**Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad**
**Mis Tachwedd 2022**